



# Ynni i Ffynnu

Mae Trydan Gwyrdd Cymru (Trydan) yn gwmni ifanc – wedi'i sefydlu yn haf 2024.

Llywodraeth Cymru sy' berchen ar Trydan - ac felly mae'r cwmni yn perthyn i bawb yng Nghymru.

Pwrpas Trydan yw, datgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a sicrhau buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bob un sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Hynny yw, creu "Ynni i Ffynnu".

Ar hyn o bryd mae Trydan yn datblygu tri phrosiect gwynt ar y tir, ac un prosiect ynni solar.




## Wyddoch chi ei bod hi'n cymryd rhwng 7 i 10 mlynedd i sefydlu prosiect gwynt ar y tir llwyddiannus?!

Rhaid dechrau gyda lleoliad addas. Yna, ystyried yn fanwl, gan ymgynghori gyda llawer o bobl leol ac arbenigwyr i greu cais am caniatâd cynllunio, a chreu cynllun busnes sy'n sicrhau buddion hir dymor. Mae angen cannoedd o bobl, am 18 mis i adeiladu prosiect gwynt mawr.

Yna, bydd degau o bobl leol yn ei rheoli i bweru bywydau, diwydiant a masnach Gymreig yn effeithlon am 30 mlynedd, o leiaf.

Dim rhyfedd felly bod Trydan yn gofyn am gefnogaeth ac ysbrydoliaeth arbennig darllenwyr IAW!

## Y GYSTADLEUAETH

Rhowch hwb i dîm ynni adnewyddadwy Cymru, gyda'ch **dehongliad, agored a chreadigol, chi o**

## "Ynni i Ffynnu"

drwy gyfansoddi:

- **Celf:** unrhyw gyfrwng 2D (2 ddimensiwn) ar bapur A4;

**neu**

- **Cerdd yn y Gymraeg:** gall odli neu beidio, dim mwy na 24 llinell o hyd.

**Manylion i gyd yma:**

**Mi fydd gwobrau i'r enillwyr ym mhob categori, a'u gwaith i'w gweld ar wefan Trydan Gwyrdd Cymru.**

**"Mae angen cannoedd o bobl, am 18 mis i adeiladu prosiect gwynt mawr."**